# Cynllun y Bathodyn Glas

## Cyflwyniad

Bydd rhai pobl gydag anableddau penodol yn cael Bathodyn Glas. Dylai'r Bathodyn Glas gael ei ddefnyddio mewn cerbyd lle mae deiliad y bathodyn yn teithio un ai fel gyrrwr neu fel teithiwr, ac mae'n ei ganiatáu i barcio mewn rhai ardaloedd cyfyngedig am gyfnod cyfyngedig o amser. Nid yw'r ffaith eich bod yn berchen ar Fathodyn Glas ar hyn o bryd, neu eich bod wedi cael bathodyn o'r blaen, neu eich bod wedi bod yn gymwys am Fathodyn Glas o'r blaen, yn golygu y byddwch chi o rheidrwydd yn parhau'n gymwys am un. Weithiau, gall rhai awdurdodau lleol fod â mannau parcio i ddeiliaid y Bathodyn Glas wrth ymyl eu cartrefi. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar bolisi ac amodau lleol, ac argaeledd y cyllid. Nid yw gweithredwyr meysydd parcio, yn cynnwys awdurdodau lleol, yn gorfod cynnig unrhyw gonsesiwn na thaliadau gostyngedig i ddeiliaid y Bathodyn Glas, er bod rhai yn gwneud hynny. Dylid gwneud ceisiadau am Fathodyn Glas yn uniongyrchol i'ch cyngor lleol, neu drwy'r wefan https://www.gov.uk/apply-blue- badge

## Beth allwn ei wneud

Os ydych chi'n meddwl bod penderfyniad y Cyngor i wrthod rhoi Bathodyn Glas i chi, i'ch perthynas neu i unigolyn rydych yn gofalu amdano, yn benderfyniad anghywir, efallai y gallwn eich helpu. Fel arfer, gallwn edrych ar eich cwyn os:

- bu oedi afresymol gyda'r cais am Fathodyn Glas;
- oedd diffyg sylweddol ar y broses o asesu eich cais – er enghraifft, nid oedd yn dilyn y ddeddfwriaeth na'r canllawiau ynghylch a ydych yn gymwys neu beidio;

- nad oes gan y Cyngor weithdrefn adolygu neu ailasesu ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cael eu gwrthod am Fathodyn Glas neu os yw wedi methu â defnyddio ei weithdrefn yn briodol.

## Beth na allwn ei wneud

Ni allwn:

- gwestiynu'r meini prawf cymhwysedd sydd wedi'i amlinellu yn y ddeddfwriaeth;
- cynnal asesiad o'ch anghenion gofal iechyd a'ch cymhwysedd am Fathodyn Glas;
- eich helpu i wneud cais am Fathodyn Glas (mae sefydliadau eraill ar gael i'ch helpu – darllenwch 'gwybodaeth bellach' isod);
- dweud wrthych a ddylai Bathodyn Glas fod wedi ei roi neu newid penderfyniad y Cyngor a dweud wrtho i roi Bathodyn Glas i chi;
- o dan amgylchiadau arferol, edrych ar gwynion lle mae hawl apelio statudol ar gael. Os yw Bathodyn Glas wedi cael ei wrthod oherwydd collfarn berthnasol am gamddefnyddio yn y gorffennol, neu lle mae'r Cyngor angen i Fathodyn Glas gael ei ddychwelyd oherwydd ei fod yn credu bod ymgeisydd wedi'i gael drwy ymhoniad anwir, mae hawl apelio i Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, rydym yn annhebygol o allu edrych ar gwynion am wrthodiadau o'r fath.

## Gwybodaeth bellach

Efallai yr hoffech ystyried cysylltu â'r sefydliadau canlynol am gyngor:

Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor a chymorth yn rhad ac am ddim i aelodau'r cyhoedd a gellir gweld gwybodaeth benodol ynglŷn â'r Cynllun Bathodyn Glas ar eu gwefan:

[https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Budd-daliadau/sick-or-disabled-people-and-carers/help-for-disabled-travellers1-in-wales/](https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Budd-daliadau/sick-or-disabled-people-and-carers/help-for-disabled-travellers1-in-wales/)

Mae **Llywodraeth Cymru** hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth a chanllawiau am y Cynllun Bathodyn Glas ar ei gwefan:

https://www.llyw.cymru/bathodynnau-glas-pwy-syn-gymwys

https://www.llyw.cymru/bathodynnau-glas-eich-hawliau-chyfrifoldebau

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203 neu ebostio holwch@ombwdsmon.cymru

# Hawdd ei Ddarllen

Cynllun y bathodyn glas